# Cwestiynau Cyffredin

## Sesiynau galw heibio:

- **Lefel 2 GChDDP Craidd**
- **Lefel 2 a Lefel 3 GChDDP Ymarfer a Theori**

**Mehefin 2021**

## Lefel 2 GChDDP CRAIDD

1. *Ni fydd nifer o ddysgwyr wedi'u cwblhau erbyn diwedd y trefniadau lliniaru. Pa gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y rhain?*

   Mae City & Guilds a CBAC wedi gweithio gyda CC, GCC ac AaGIC i ymestyn y trefniadau lliniaru craidd tan 31/10/21. Mae'r estyniad hwn yn caniatáu i ddysgwyr sy'n cwblhau gwaith yn amserol ar hyn o bryd ac sydd i fod i gwblhau erbyn y dyddiad i fanteisio ar y trefniadau lliniaru.

2. *A ellir teipio asesiadau mewnol craidd AaGIC a IGC yn hytrach na'u hysgrifennu â llaw?*

   Gellir teipio asesiadau mewnol yn lle eu hysgrifennu â llaw. Mae angen i'r ganolfan sicrhau nad oes gan y dysgwr fynediad i'r rhyngrwyd yn ystod yr asesiad os yw'n defnyddio gliniadur/PC.

3. *Sut gallwn ni gefnogi dysgwyr sydd wedi methu'r cwestiwn dewis lluosog craidd sawl gwaith? Pa gefnogaeth sydd ar gael?*

   Gall methu sawl tro wrth roi cynnig ar y cwestiwn dewis lluosog fod yn hynod o ddigalon i ddysgwyr a'r tîm asesu.

   Er mwyn cefnogi dysgwyr yn llawn wrth gwblhau'r asesiad allanol, dylai dysgwyr fod wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer yr asesiad ymlaen llaw. Er enghraifft, cwblhau'r ffug-asesiad sydd ar gael a chwblhau unrhyw asesiadau wedi'u dyfeisio gan y ganolfan.

   Ar ddiwedd pob asesiad, dylid darparu adroddiad dadansoddi i'r dysgwr sy'n amlinellu meysydd cynnwys y fanyleb y mae angen eu datblygu ymhellach. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon fel canllaw adolygu i alluogi'r dysgwr i ganolbwyntio ar feysydd y mae angen iddo atgoffa'i hun ohonynt a'u hadolygu.

4. Sut rydym yn gwneud cais am ystyriaethau arbennig a threfniadau mynediad ar gyfer dysgwyr GChDDP?

Ar gyfer cymwysterau CBAC, gellir gwneud ceisiadau am ystyriaeth arbennig drwy anfon e-bost at ystyriaethauarbennig@cbac.co.uk

## 5. Pa wiriadau y dylai canolfannau eu cwblhau ar nodiadau adolygu asesiadau mewnol?

Cyn cwblhau asesiadau mewnol, dylai'r aseswr wirio nodiadau adolygu ar gyfer dilysrwydd.

Ni ddylai'r nodiadau gynnwys atebion wedi'u rhagnodi y gall y dysgwr eu trosglwyddo'n uniongyrchol i atebion y banc cwestiynau. Ni ddylai nodiadau adolygu fod yn fwy na 2 ochr A4. Gall y nodiadau fod wedi'u teipio neu eu hysgrifennu â llaw a dylai maint y ffont fod yn ddarllenadwy.

Dylai'r nodiadau ganiatáu i'r dysgwr fyfyrio ar yr addysgu a dysgu a addysgwyd yn flaenorol i ateb y cwestiwn i'w lawn botensial.

Ar ôl cwblhau'r asesiad mewnol, dylai'r dysgwr a'r aseswr ddilysu nodiadau adolygu.

## 6. Faint o fanylion a ganiateir mewn nodiadau adolygu?

Ni ddylai'r nodiadau gynnwys atebion wedi'u rhagnodi y gall y dysgwr eu trosglwyddo'n uniongyrchol i atebion y banc cwestiynau. Ni ddylai nodiadau adolygu fod yn fwy na 2 ochr A4. Gall y nodiadau fod wedi'u teipio neu eu hysgrifennu â llaw a dylai maint y ffont fod yn ddarllenadwy.

Dylai'r nodiadau ganiatáu i'r dysgwr fyfyrio ar yr addysgu a dysgu a addysgwyd yn flaenorol i ateb y cwestiwn i'w lawn botensial.

Gall y dysgwr ddefnyddio geiriau, diagramau a siartiau i lunio ei nodiadau.

## 7. A fydd mwy o ddeunyddiau asesu enghreifftiol ar gael ar gyfer cymwysterau craidd?

Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw gynlluniau uniongyrchol i gynnig unrhyw ddeunyddiau asesu enghreifftiol ychwanegol.

Fodd bynnag, wrth i asesiadau mewnol ac asesiadau allanol orffen, bydd y rhain yn dod yn ddeunyddiau asesu enghreifftiol yn awtomatig. Bydd City & Guilds a CBAC yn hysbysu canolfannau pan fydd hyn yn digwydd ac yn ychwanegu'r papurau at dudalennau cymhwyster DIGC.

Gall y ganolfan ddyfeisio eu deunyddiau asesu enghreifftiol eu hunain os dymunant. Gallant ddefnyddio'r deunyddiau asesu enghreifftiol wedi'u cymeradwyo fel templed a llywio cynnwys y fanyleb i lunio mwy o gwestiynau ac atebion addas. Mae hyn yn arfer da i baratoi dysgwyr yn llawn ar gyfer asesiadau allanol a chwestiynau arholiad arddull cwestiwn dewis lluosog.

8. A ellir postio astudiaethau achos asesiadau mewnol i'r dysgwr?

Deunyddiau asesu byw yw deunyddiau asesu mewnol. Felly, mae angen i'r ganolfan bob amser sicrhau diogelwch y deunyddiau.

Mae llawer o ganolfannau'n trosglwyddo'r astudiaeth achos yn electronig i ddysgwyr gan ddefnyddio trosglwyddo diogel (E-bortffolio, blwch gollwng *(drop box)* ac ati) Yna gall y ganolfan gael gwared ar yr astudiaeth achos ar ôl i'r asesiad gael ei gynnal.

Bydd rhai canolfannau yn postio'r astudiaeth achos i'r dysgwr drwy ddefnyddio postio wedi'i dracio.

Hoffem atgoffa pob canolfan bod diogelwch yr astudiaethau achos hyn yn hanfodol er mwyn cynnal dilysrwydd yr asesiadau a'r cymhwyster yn gyffredinol.

9. A ellir rhannu astudiaethau achos asesiadau mewnol yn electronig â'r dysgwr?

Deunyddiau asesu byw yw deunyddiau asesu mewnol. Felly, mae angen i'r ganolfan bob amser sicrhau diogelwch y deunyddiau.

Mae llawer o ganolfannau'n trosglwyddo'r astudiaeth achos yn electronig i ddysgwyr gan ddefnyddio trosglwyddo diogel (E-bortffolio, blwch gollwng *(drop box)* ac ati) Yna gall y ganolfan gael gwared ar yr astudiaeth achos ar ôl i'r asesiad gael ei gynnal.

Bydd rhai canolfannau yn postio'r astudiaeth achos i'r dysgwr drwy ddefnyddio postio wedi'i dracio.

Hoffem atgoffa pob canolfan bod diogelwch yr astudiaethau achos hyn yn hanfodol er mwyn cynnal dilysrwydd yr asesiadau a'r cymhwyster yn gyffredinol.

10. A oes fersiynau papur o'r cwestiynau dewis lluosog ar gael i ddysgwyr GChDDP?

Oes, mae fersiynau papur o asesiadau allanol cwestiynau dewis lluosog ar gael i bob dysgwr. Caiff asesiadau ar bapur eu marcio gan CBAC a gallant gymryd 30 diwrnod i gael y canlyniadau.

Gellir gwneud cais am fersiynau papur drwy anfon e-bost at pathways@wjec.co.uk

11. Sut mae cael gafael ar adborth cwestiynau dewis lluosog ar ôl cwblhau'r asesiad?

Dylai'r adroddiad ymddangos ar y sgrin ar ôl cwblhau'r asesiad.

Ar ddiwedd pob asesiad, dylid darparu adroddiad dadansoddi i'r dysgwr sy'n amlinellu meysydd cynnwys y fanyleb y mae angen eu datblygu ymhellach. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon fel canllaw adolygu i alluogi'r dysgwr i ganolbwyntio ar feysydd y mae angen iddo atgoffa'i hun ohonynt a'u hadolygu.

12. Pam mae'r marciau llwyddo yn wahanol ar gyfer pob papur cwestiynau dewis lluosog?

Mae pob papur cwestiynau dewis lluosog wedi mynd drwy broses sicrhau ansawdd drylwyr i bennu'r marc llwyddo.

Roedd arbenigwyr pwnc y Blynyddoedd Cynnar o'r sector Blynyddoedd Cynnar yn cymryd rhan yn y gwaith o bennu'r marc llwyddo ar gyfer pob papur. Adolygwyd cymhlethdod a pha mor anodd oedd y papur gan banel y Blynyddoedd Cynnar a cafodd ei gymharu â'r person cymwys i'r graddau lleiaf sydd ei angen gyda'r sector Blynyddoedd Cynnar.

Mae gan bob cwestiwn dewis lluosog farc llwyddo gwahanol o fewn ystod goddefgarwch o 70-80%.

## Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Ymarfer a Theori

1. *Ni fydd nifer o ddysgwyr wedi'u cwblhau erbyn diwedd y trefniadau lliniaru. Pa gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y rhain?*

Mae City & Guilds a CBAC wedi gweithio gyda CC, GCC ac AaGIC i ymestyn y trefniadau lliniaru craidd tan 31/10/21. Mae'r estyniad hwn yn caniatáu i ddysgwyr sy'n cwblhau gwaith yn amserol ar hyn o bryd ac sydd i fod i gwblhau erbyn y dyddiad i fanteisio ar y trefniadau lliniaru.

2. *A ellir teipio asesiadau mewnol craidd AaGIC a IGC yn hytrach na'u hysgrifennu â llaw?*

Gellir teipio asesiadau mewnol yn lle eu hysgrifennu â llaw. Mae angen i'r ganolfan sicrhau nad oes gan y dysgwr fynediad i'r rhyngrwyd yn ystod yr asesiad os yw'n defnyddio gliniadur/PC.

3. *Sut gallwn ni gefnogi dysgwyr sydd wedi methu'r cwestiwn dewis lluosog craidd sawl gwaith? Pa gefnogaeth sydd ar gael?*

Gall methu sawl tro wrth roi cynnig ar y cwestiwn dewis lluosog fod yn hynod o ddigalon i ddysgwyr a'r tîm asesu.

Er mwyn cefnogi dysgwyr yn llawn wrth gwblhau'r asesiad allanol, dylai dysgwyr fod wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer yr asesiad ymlaen llaw. Er enghraifft, cwblhau'r ffug-asesiad sydd ar gael a chwblhau unrhyw asesiadau wedi'u dyfeisio gan y ganolfan.

Ar ddiwedd pob asesiad, dylid darparu adroddiad dadansoddi i'r dysgwr sy'n amlinellu meysydd cynnwys y fanyleb y mae angen eu datblygu ymhellach. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon fel canllaw adolygu i alluogi'r dysgwr i ganolbwyntio ar feysydd y mae angen iddo atgoffa'i hun ohonynt a'u hadolygu.

4. Fel canolfan, a allwn leihau'r dewis o unedau dewisol ymarfer i ddysgwyr?

   Dylai'r dysgwr gael mynediad i'r holl unedau ymarfer o fewn y cymhwyster sydd wedi'i deilwra i'w swydd.

   Fodd bynnag, mae angen i'r ganolfan sicrhau bod gan y tîm asesu a sicrhau ansawdd mewnol y cymhwysedd galwedigaethol i asesu a sicrhau ansawdd yr unedau a ddewisir.

5. Sut ydych chi'n cofrestru unedau Lefel 2 GChDDP: Ymarfer a Theori ar gyfer ardystio?

   Mae CBAC yn gweithredu ar gylch cyfnod ardystio ar gyfer yr holl gymwysterau.

   Felly, mae angen i'r ganolfan benderfynu pa gyfnod y bydd y dysgwr yn ei gwblhau ac yna'n cofrestru. Dylai'r ganolfan gofrestru pob uned ymarfer. Mae codau cofrestru a chyfarwyddiadau pellach ar gael ar dudalennau DIGC.

   Ar ôl cofrestru, bydd eich Swyddog Sicrhau Ansawdd wedyn yn trefnu samplu gyda'ch canolfan.

6. A fydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn samplu Uned 216?

   Na, mae Uned 216 yn arholiad wedi'i amserlennu. Caiff ei marcio gan CBAC.

## Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Ymarfer a Theori

1. Pa drefniadau lliniaru fydd ar gael i ddysgwyr sy'n cwblhau Lefel 3 GChDDP: Ymarfer a Theori?

   Mae addasiadau ar gyfer Lefel 3 GChDDP: Ymarfer a Theori yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

   Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, darperir rhagor o wybodaeth ar dudalennau Covid 19 DIGC.

2. Beth yw dyddiad yr arholiad ar gyfer Uned 330 yn yr Hydref?

   Dyddiad arholiad Hydref 2021 yw 4 Hydref 2021 PM.

3. Ni fydd nifer o ddysgwyr wedi'u cwblhau erbyn diwedd y trefniadau lliniaru. Pa gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y rhain?

   Mae City & Guilds a CBAC wedi gweithio gyda CC, GCC ac AaGIC i ymestyn y trefniadau lliniaru craidd tan 31/10/21. Mae'r estyniad hwn yn caniatáu i ddysgwyr sy'n cwblhau gwaith yn amserol ar hyn o bryd ac sydd i fod i gwblhau erbyn y dyddiad i fanteisio ar y trefniadau lliniaru.

4. Sut rydym yn gwneud cais am ystyriaethau arbennig a threfniadau mynediad ar gyfer dysgwyr GChDDP a IGC?

   Ar gyfer cymwysterau CBAC, gellir gwneud ceisiadau am ystyriaeth arbennig drwy anfon e-bost at ystyriaethauarbennig@cbac.co.uk

5. A fydd mwy o ddeunyddiau asesu enghreifftiol ar gael ar gyfer cymwysterau craidd?

   Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw gynlluniau uniongyrchol i gynnig unrhyw ddeunyddiau asesu enghreifftiol ychwanegol.

   Fodd bynnag, wrth i asesiadau mewnol ac asesiadau allanol orffen, bydd y rhain yn dod yn ddeunyddiau asesu enghreifftiol yn awtomatig. Bydd City & Guilds a CBAC yn hysbysu canolfannau pan fydd hyn yn digwydd ac yn ychwanegu'r papurau at dudalennau cymhwyster DIGC.

   Gall y ganolfan ddyfeisio eu deunyddiau asesu enghreifftiol eu hunain os dymunant. Gallant ddefnyddio'r deunyddiau asesu enghreifftiol wedi'u cymeradwyo fel templed a llywio cynnwys y fanyleb i lunio mwy o gwestiynau ac atebion addas. Mae hyn yn arfer da i baratoi dysgwyr yn llawn ar gyfer asesiadau allanol a chwestiynau arholiad arddull cwestiwn dewis lluosog.

6. Ymarfer a Theori Fel canolfan, a allwn leihau'r dewis o unedau dewisol ymarfer i ddysgwyr?

   Dylai'r dysgwr gael mynediad i'r holl unedau ymarfer o fewn y cymhwyster sydd wedi'i deilwra i'w swydd.

   Fodd bynnag, mae angen i'r ganolfan sicrhau bod gan y tîm asesu a sicrhau ansawdd mewnol y cymhwysedd galwedigaethol i asesu a sicrhau ansawdd yr unedau a ddewisir.

7. Sawl gwaith y gall dysgwr sefyll yr arholiad Uned 330?

   Mae arholiad Uned 330 ar gael ym mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn.

   Mae'r cymhwyster Lefel 3 CCPLD: Ymarfer a Theori i fod yn rhaglen ddwy flynedd. Mae Uned 330 i fod i gael ei chymryd ar ôl i'r holl gynnwys manyleb gael ei gynnwys.

   Nid oes terfyn ar faint o weithiau y gall y dysgwr sefyll yr arholiad hwn dros ddwy flynedd y rhaglen.

8. Sawl gwaith y gall dysgwr sefyll asesiad allanol Uned 331?

   Mae'r cymhwyster Lefel 3 CCPLD: Ymarfer a Theori i fod yn rhaglen ddwy flynedd. Mae Uned 331 i fod i gael ei chymryd ar ôl i'r holl gynnwys manyleb gael ei gynnwys ym mlwyddyn 2.

Mae Uned 331 yn annog y dysgwr i fyfyrio ar addysgu a dysgu a phrofiad o leoliad gwaith i gwblhau'r project ymchwilio.

Nid oes terfyn ar faint o weithiau y gall y dysgwr sefyll yr arholiad hwn dros ddwy flynedd y rhaglen. Mae Uned 331 ar gael yn y Gwanwyn bob blwyddyn ac mae angen ei chyflwyno i CBAC ym mis Mai i'w marcio.

## 9 Beth yw'r dyddiad rhyddhau ar gyfer y project ymchwilio (Uned 331)

Ar gyfer carfan 2020/2022 bydd y testunau'n cael eu rhyddhau ddydd Llun cyntaf mis Chwefror 2022. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 15 Mai 2022.

Ar gyfer carfan 2021/2023 bydd y testunau'n cael eu rhyddhau ddydd Llun cyntaf mis Mawrth 2023. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 15 Mai 2023.